160 528887 4

# A[illegible]L

AM Y DIWEDDAR

# BARCH. JOHN HUGHES,

LERPWL,

YR HWN A FU FARW YR WYTHFED O AWST, 1860

Yn Drugain-a-phum' mlwydd oed.

## Y'nghyda Hymnau ar wahanol Faterion,

GAN DANIEL JONES,

MERCHANT, GWRECSAM, AWDWR "TELYN SEION."



Wrexham:

ARGRAFFWYD. GAN R. HUGHES & SON, 56, HOPE STREET.

AR WERTH GAN YR AWDWR.

PRIS DWY GEINIOG.

1860

# ADGOFION MARWNADOL

AM Y DIWEDDAR

## BARCH. JOHN HUGHES,

LERPWL,

YR HWN A FU FARW YR 8fed O AWST, 1860,

YN DRUGAIN A PHUM' MLWYDD OED.

YN YNGHYDA

## HYMNAU AR WAHANOL FATERION,

GAN

DANIEL JONES,

MERCHANT WREXHAM. AWDWR "TELYN SEION."

WREXHAM:

ARGRAFFWYD DROS YR AWDWR, GAN R. HUGHES & SON.

1860

# ADGOFION MARWNADOL, &c.

BETH yw'r tristwch dwys a gododd,
  Ac a lanwodd Seion Duw,
Gan greu ynddi gwyn a galar,
  A mawr ofid eglur yw ?
Colli wnaeth weinidog enwog,
  A llafurus yn ei ddydd
Y Parchedig HUGHES o *Lerpwl*,
  Wedi marw yma sydd.

Seion, gwrando, dwys ystyria,
  Achos galar i ti yw,
Collaist un o'r rhai enwoca'
  Fel dysgawdwr dros ei Dduw :
Y mae 'r newydd trist galarus—
  Colli Hughes oedd dyner dad,—
Yn creu gofid dwys a thristwch,
  Yn mhob eglwys, a phob gwlad.

Yn yr ADWY ca'dd ei fagu,
  Yn impyn teg a pharchus iawn,—
Ynddo gwelwyd pan yn fachgen
  Berlau teg o ddoniau 'n llawn ;—
Ac y byddai yn fawr fendith
  I eglwys Dduw a Chymru ynghyd,
Drwy eu dysgu yn athrawiaeth
  Iachawdwriaeth gras i gyd.

Gras a bendith a ddilyno
  Deulu 'r Adwy eto 'n nghyd,
Am eu gwaith yn dwyn i fyny
  'R fath Weinidog gwych i'r byd ;
Ca'dd ei fagu pan yn blentyn
  Gan rieni parchus iawn,
Eu holl ofal oedd i'w ddysgu,
  ' Rodio llwybrau 'r Nef yn llawn.

Gwrando wnaeth ef ar gynghorion
   Ei rieni, tyner iawn,
Er nad oedd ond plentyn ieuanc
   Cadwodd ef hwynt oll yn llawn;
A phan dyfodd ef i fyny
   Yn ŵr hawddgar, hardd ei bryd,
Ca'dd ei alw i bregethu
   Crist a'i groes a'i angeu drud.

Fe lafuriodd yn yr Adwy
   Am flynyddau 'n wresog iawn;
Ac yn Wrecsam wedi hyny
   Ysbaid bymtheng mlynedd llawn:
A'r rhan olaf yn ei fywyd,
   Ni chwttogai 'i lafur ef,
Bu yn fendith i dref Lerpwl,
   Dan arweiniad Brenin Nef.

Mawr anrhydedd oedd i Gymru
   Fel pregethwr gwresog iawn,
Fe ragorodd ar laweroedd
   O rai enwog yn eu dawn;
Pan esgynai ef i'r pulpud
   Llygaid pawb oedd arno ef,
A phob un yn astud wrando
   Ar ei dreiddgar beraidd lef.

Pan y byddai yn pregethu
   Yn mhob ardal, man, neu le,
Pob dystawrwydd drwy y dyrfa
   Mewn un munud a gai ê,—
A phob llygaid arno 'n tremio—
   Pob gwrandawiad iddo cawn,
I glywed ei athrawiaeth hyfryd
   Mewn mawr sel a chariad llawn.

Byddai 'i lygaid yn dysgleirio—
  Llamai 'i galon yr un pryd,
Pan y byddai yn datguddio
  Anfeidrol gariad Crist i'r byd;
Fe 'n harweinia i ben Golgotha
  A grym ei sel, a'i fedrus ddawn,
Gan ddatguddio i ni 'n eglur,
  Ffordd i gael maddeuant llawn.

O mor hyfryd, ddedwydd, ydoedd,
  Wrth gyhoeddi Crist a'i groes,—
Pan ddatguddiai 'i fawr gariad
  Yn nyoddefaint angeu loes:
Denai bron y serch a'r galon,
  Yn mhob tyrfa yn gyttun,
I fawr alar a gorfoledd
  Yr un munud bron bob un.

O mor felus y cymhellai
  Bechaduriaid brwnt, a chas,
I ymorphwys ar yr Iesu
  A'i anfeidrol, ddwyfol ras;
Gan ymddired ynddo 'n hollol,
  Ac i bwyso ar yr Iawn,
Dalodd drostynt ar Galfaria
  Ar y croesbren un prydnawn.

Gwresog fyddai yn mynegu
  Am anfeidrol gariad Duw,
Yn agor llwybr i bechadur
  ' Ddod o'i farwol fedd yn fyw;
Tra datguddiai rym y cariad
  A mawr haeddiant Crist a'i ddawn,
Toddai galon y rhai c'letaf,
  A dyddanai 'r llesg yn llawn.

Fel pregethwr craff iawn ydoedd,
  Yn mhob tyrfa gwelai ef
Y rhai cyndyn, blin, a phigog,
  Yn dirmygu geiriau'r Nef;
Ond dangosai fynydd Sïnai,
  ' Mwg, y t'wllwch mawr, a'r tân,
' Mellt, a'r t'ranau, a'r ddaeargryn,
  Nes y gwaeddent fawr a man.

' R oedd rhyw nerth, a grym, a goleu,
  Yn ei holl bregethau y'nghyd,
Nes creu gofid dwys, a galar,
  A mawr ddychryn yr un pryd,
Fel y gwaeddent am faddeuant
  O'u pechodau oll i gyd,
'N haeddiant Iesu a fu farw
  O dan bwys pechodau 'r byd.

Pan y rhoddai ef gyhoeddiad
  I fyn'd drwy'r Gogledd neu 'r Dê,
Torfeydd mawrion a ddylifent
  I wrando 'i ddoniau hynod ê' :
Perlau teg a welwyd ynddo,—
  Dysg a dawn o'r nef y daeth,—
A defnyddiodd hwynt yn eglur,
  Y'mhob areithfa lle 'r aeth.

Yn mhob ardal yr aeth iddi
  Fe bregethai 'n eglur iawn,
Erchyll gyflwr dyn truenus—
  Ffordd i gael maddeuant llawn;
A'i wynebpryd oedd yn siriol,
  Denai serch y dyrfa 'n un,
Pan ddangosai rym y cariad,
  A mawr haeddiant Crist ei hun.

Fe ddisgleiriai ei olygon
  A'i wynebpryd yr un pryd,
Wrth bregethu am y cariad
  A ddatguddiodd Crist i'r byd:
Wyth a deugain o flynyddoedd
  Y llafuriodd dros ei Dduw,
Ac eneiniad gras y nefoedd
  A'i dilynodd tra bu byw.

Galwyd ef i fod yn llywydd
  Cymmanfaoedd lawer iawn,
I'w swydd rhodiai mewn anrhydedd—
  Ynddi rhoi foddlonrwydd llawn:
Trwy ei ddysg, ei ras, a'i ddoniau,
  A'i wybodaeth gyflawn gref,—
Y materion o'r pwys mwyaf
  Driniai ef â geiriau 'r Nef.

'R oedd yn ddyn ac yn un cyflawn
  Yn mhob man lle byddai ê,
Yn mhob ardal, a phob teulu,
  Yn mhob eglwys, gwlad, a thre';
Yn mhob pulpud, mewn athrawiaeth,
  Yn ei iaith, a'i ddoniau llawn,
Fe ragorodd ar fawr nifer
  Mewn dysgleirdeb eglur iawn.

Fe bregethodd fywyd Cristion—
  Rhodiodd ynddo ef ei hun,
Byddai 'n hynod wyliadwrus
  Rhag tramgwyddo 'r eiddil un:
Fe wrandawodd lluaws arno—
  Rhodio fel y rhodiodd ef:—
Drwy ei fywyd a'i bregethau
  Gwelir tyrfa yn y Nef.

Boneddigaidd ei ymddygiad,
  A'i dduwioldeb oedd yn fawr,—
Yn ei rodiad y dangosodd
  Fywyd Cristion ar y llawr :
Nid mewn geiriau y llefarodd—
  Grym duwioldeb ynddo gawn ;
A bu farw yn goncwerwr
  Drwy ymorphwys ar yr Iawn.

Yr oedd ef yn gyfaill ffyddlawn—
  Pob cyfrinach gadwai ê,
Nid adroddai air o'r cyfan
  Mewn un man byth tan y Ne' ;
Mewn sirioldeb y rhagorai
  Ar bob cyfaill bron a wnaed ;
Yn ei eiriau a'i agweddau
  'R oedd yr un ffyddlona gaed.

Anwyl, union, gyfaill tyner,
  Tad yn Sïon p'le 'r e'st ti ?
Synu 'r wyf dy fod yn gorwedd
  Y'ngwaelod bedd o'm golwg i !
Gwel'd y llwybrau a dramwyaist,
  A'th gyfeillion yn mhob lle,
Ni chaf wel'd dy wyneb llawen
  Yma 'n siriol tan y Ne'.

Y mae Hughes ein cyfaill heddyw,
  Yn llewyrchu fel yr haul,
Yn y nefoedd mewn gogoniant,
  Yn nghyfiawnder Adda 'r Ail ;
Gyda 'r dyrfa orfoleddus
  Yn y tragwyddoldeb mawr,
Mewn hyfrydwch digyffelyb,
  Yn dysgleirio fel y wawr.

Mae ein hanwyl, hoffus gyfaill,
  Yn cartrefu yn y Nef,
Gyda lluaws a lafuriodd
  Ar y ddaear gydag ef;
Yn y pur drigfanau nefol,
  Sef cynteddau tŷ eu Tad,
Oll yn canu mewn gorfoledd,
  Am anfeidrol rin y gwaed.

Mae y canu, ac mae 'r canmol
  Byth heb ddiwedd iddo i fod,—
Anherfynol a thragwyddol,
  Digyfnewid fydd y clod;—
Cariad ydoedd a'u gwaredodd
  O'u trueni dwfwn iawn;
Am y cariad byth y canant,
  Ac anfeidrol, ddwyfol ddawn.

Rhyfeddodau pur y nefoedd
  Sydd yn eglur iddo ef,
Mae pob cynneddf yn ei enaid
  Mewn hyfrydwch yn y nef;
Ac mae troion dyrys daear,
  Iddo 'n eglur bob yr un,
Nes mae 'i enaid mewn llawenydd
  Yn moliannu Tri yn Un.

Ti a e'st i ffordd a gadael
  Gweinidogion mawr eu bri,
Gydlafuriodd mewn llawenydd
  Ar y ddaear gyda thi;
Rees, a lluaws o rai eraill,
  Mewn mawr hiraeth sydd yn awr,—
Cofio maent dy sel a'th lafur,
  A'th sirioldeb oedd yn fawr.

Ffrwythau grasol a ddilynodd
   Ei ddoeth lafur yn ei oes,
Ac y mae 'n llefaru eto
   Yn y llyfrau in' a roes;—
Bydd ei lyfrau oll a'i lafur
   Fyth yn anwyl gan y byw;
A'i athrawiaeth gadarn, eglur,
   Fyth mewn cof gan deulu Duw.

Y mae 'r undeb anweledig
   Sy rhwng corff a'r enaid cu,
Yn fath undeb anwahanol
   Nes y delo 'r angeu du;
Pan ddelo y gelyn olaf,
   I ddryllio yr undeb gwiw,
Eheda yr enaid gwerthfawr
   Fry i wyddfod Barnwr byw.

Y mae angeu yn dinystrio
   Cedyrn Sïon o bob rhyw,
Yn yr eglwys drwy 'r holl oesoedd—
   Rhyfedd yw ei bod yn fyw;
Er bod angeu yn gorchfygu
   Holl breswylwyr daear lawr,
Fe gaiff yntau ei ddiddymu
   Boreu 'r adgyfodiad mawr.

Gelyn ydyw i'r ddynoliaeth
   Drwy holl oesau maith y byd,
Y mae 'n para i orchfygu
   Ac i dori ' lawr o hyd;
Eto daw rhyw foreu hyfryd,
   Ac fe 'i llyncir ef a'r bedd
Mewn tragwyddol oruchafiaeth,
   Gan ein gwir Dywysog hedd.

# HYMNAU.

*Am Afon Angeu.*

WRTH rodio glàn 'r Iorddonen,
  A gwel'd ei hymchwydd hi,
A'i thònau mawrion, cedyrn,
  Ac erchyll rym ei lli',
Dymunwn yn fy enaid
  Gael 'hedeg dros ei thòn,
I mewn i'r pur drigfanau
  Heb ofnau tan fy mron.

Er i mi chwenych 'hedeg
  I 'sgoi ei hymchwydd hi,
Ni threfnwyd ffordd im' ddianc
  Mae marw yn ol i mi;
Ond yn yr afon enbyd,
  Sef marw, eglur yw,
Y ceidw Crist ei deulu
  Heb brofi braw, na briw.

ARALL.

Paham, paham yr ofnaf fi,
  Fawr rym dy nerth sydd enbyd;
Caf fyn'd yn mlaen i'm cartref cu,
  Heb ofni braw na drygfyd;
Agorodd Crist y ffordd ei hun,
  Drwy rym dy nerth a'th dònau;
Arafodd hwn dy erchyll li',—
  Llonyddodd afon angau.

*Colli Cyfeillion.*

Dyma 'r newydd trist galarus—
  Colli ein cyfeillion cu,
A gyd rodiodd ar y ddaear
  I addoli gyda ni;
Y maent heddyw wedi huno,
  Ac yn gorwedd yn y bedd,
A'u heneidiau mewn gorfoledd
  Yn mwynhau tragwyddol hedd.

Y mae lluaws o'n cyfeillion
  Wedi myn'd i'r nef yn awr,
Yno 'n derbyn ffrwyth eu llafur,
  Ac yn ddisglaer fel y wawr;
Oll a gwisgoedd gwynion ganddynt,
  Yn nghynteddau tŷ eu Tad,
Mewn perffeithrwydd a sancteiddrwydd
  Yn dragwyddol eu parhad.

Mewn llawn hyder ffydd yr aethant,
  I'r tragwyddol hyfryd hedd—
Digyffelyb mewn gogoniant—
  A thragwyddol fydd y wledd;—
Gyda 'r seintiau a'r angylion,
  Yn rhyfeddu marwol glwy',
Yn nghymdeithas Grist yr Arglwydd,
  Yn dragwyddol byddant hwy.

Rhaid i'w myn'd drwy afon angeu,
  A diodda ei hing a'i loes;
Mae pob gofid yn ffoi ymaith,
  Drwy fawr rinwedd gwaed y groes;
Bydd hyfrydwch a gorfoledd,
  Byth yn llanw eu henaid mwy,
Ac o fewn i'r nef ni dderfydd
  Fyth eu rhyfeddodau hwy.

*Am Ddydd y Farn.*

Bydd dydd y farn yn ddydd rhyfeddol
  Pan udgana udgorn Duw,—
Bydd y meirw 'n adgyfodi,
  Ac yn dod o'u beddau 'n fyw;
Pawb yn gorfod rhoddi cyfrif
  I'r hwn fydd Farnwr mawr y byd,
O'u gweithredoedd ar y ddaear—
  Y gorau a'r gwaetha' oll ynghyd.

Pan ymddangoso yr Iesu
  Yn wir Farnwr mawr y byd,
Bydd ei ddull dra mawreddig,
  Pawb a'i gwelant ef yn nghyd;
Try yr haul, sydd belen oleu,
  Yn dywyllwch dudew du;
Bydd y lloer fel gwaed i'w gweled,
  Ac fe syrthia 'r ser yn llu.

*Hyfrydwch y Nef.*

Mae gogoniant a pherffeithrwydd
  Crist gwir Geidwad mawr y byd,
I breswylwyr pur y nefoedd
  Yn hyfrydwch oll y'nghyd;
Gwel'd y gŵr fu farw drostynt
  Oll yn oll o fewn i'r nef,
Pob anrhydedd roddid iddo
  Gyda pharch a llafar lef.

Mae 'r holl saint yn debyg iddo
  Ar ei ddelw bob yr un,
Mewn llawenydd anhraethadwy,
  Yn addoli Ceidwad dyn;
Heb un poen na galar yno,
  Ond gorfoledd pur heb drai,
Canu, moli, byth heb flino
  Heb un gofid nac un bai.

Rhyfeddod y rhyfeddodau
  Sydd o fewn i'r nef yn awr,
Ac i bara yn ddiddarfod
  Yn y tragwyddoldeb mawr:
Fe bydd rhyfeddodau 'r cariad,
  A'r prynu fu ar y pren,
Yn dadseinio drwy 'r holl nefoedd
  Gan fil miloedd uwch y nen.

*Crist yn fywyd.*

Y mae angeu yn preswylio
Yn mhob natur is y nen;
Nid oes neb all roddi bywyd
Ond yr hwn fu ar y pren:
Fe orchfygodd Iesu angeu,
Ac fe ddaeth o'r bedd yn fyw,
Y mae hedd a bywyd ynddo,—
Tyr'd bechadur at Fab Duw.

Ar bechadur mae ê 'n galw,
Gwrando arno, bywyd yw,
Er i angeu dy falurio,
Ti gei dd'od o'r bedd yn fyw;
Am i'r Iesu adgyfodi
O'i seliedig fedd yn fyw,
Ceiff troseddwyr a gred ynddo
Wir dangnefedd gyda Duw.

*Cariad Crist.*

Mae pob rhyfeddod sydd y'nghyd
Yn mawredd cariad Crist i'r byd,
Yn rhoi ei hun yn berffaith iawn,
Ar ben Calfaria un prydnawn;
O gariad mawr nid oes yn bod
Ei gyffelyb îs y rhod,
Fe gaiff y mawl—tragwyddol glod,
Am ein caru cyn ein bod.

ARALL.

I'r hwn a'n carodd cyn ein bod
Fe seinir cân tragwyddol glod,
Gan seintiau ac angylion fry,
Cerubiaid a Seraphiaid lu,
Yn dyrfa fawr drwy 'r nef ei hun,
Yn uno yn y gân bob un;
Ceiff llwch y llawr ymuno â hwy,
Mewn mawl a chân i'w farwol glwy'

*Brenin Seion.*

Pan anwyd Brenin Seion,
  Daeth dae'r a'r nef yn un,
Cyhoeddai'r llu nefolaidd
  Mae Crist yw Ceidwad dyn;
A'i fod yn Awdwr cymmod,
  A gwir dangnefedd llawn;—
Mae Ef oedd Crist yr Arglwydd:
  Soniarus oedd eu dawn.

Agorwyd ffordd i faddeu
  Pechodau rif y gwlith,
O Bethle'm i Galfaria:
  Bydd canu am dani byth!
Ein Iesu yr hwn fu farw
  Ar groesbren un prydnawn,
Agorodd ffordd i'r bywyd
  Drwy dalu dwyfol Iawn.

*I Blant bychain.*

Y mae Iesu Grist yn galw,
  Ar blant sydd ieuainc iawn,
I ddyfod at ei orsedd
  I gael maddeuant llawn;
O deuwch chwi blant bychain
  At Iesu Grist yn awr,
Cewch ras a bywyd ganddo,
  Mae 'i gariad ef yn fawr.

O blant, o blant, o deuwch,
  At Iesu Grist mae 'n ddawn:
O blant, o blant, o deuwch
  Chwi gewch faddeuant llawn:
O blant, o blant, o deuwch,
  Cewch fywyd ganddo ef:
O blant, o blant, o deuwch,
  Fe'ch derbyn chwi i'r nef.

*Cyfyngder y Dysgyblion ar Fôr Galilea.*

Pan oedd dysgyblion Iesu
  Mewn ystorom erchyll iawn,
Yn nghanol môr a th'w'llwch,
  Ac mewn cyfyngder llawn;—
Daeth Iesu, 'n llawn o gariad,
  Ac a'u gwaredodd hwy,
Y gwynt a'r môr gostegodd,
  Aeth yn orfoledd mwy.

Pan oedd dysgyblion Iesu
  Mewn ystorom enbyd, flin,
Y gwynt, a'r môr, a'r t'w'llwch,
  Yn difa dyfais dyn;
Pob gobaith wedi darfod
  Y do'ent i'r làn yn fyw;
Daeth Ceidwad dyn i'w cadw—
  Yr Iesu anwyl, clyw.

*Yr Ystorom.*

Y mae 'r holl elfenau cryfion,
  Ac ystormydd hefyd clyw,
Oll yn ufuddhau yn berffaith
  Ar un gair o enau Duw;—
Cuddia yr haul ei olau dysglaer
  Ar un amnaid ganddo Ef,
A gorchuddir mewn tywyllwch
  Holl brydferthwch gwyneb Nef.

Pan mae 'r Crewr mawr tragwyddol
  Mewn awdurdod yn ei lŷs,
Yn gorchymyn i'r elfenau
  I ostegu gyda brys;—
Gwrando maent mewn un munudyn,—
  Bydd tawelwch ar y llawr
A phob cyffro wedi darfod
  Trwy y greadigaeth fawr.

---

*Wrexham: Argraffwyd gan R. Hughes & Son.*

CARDIFF